| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | 12 Chwefror 2020 |
| | | Rhif Union: | 01824712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 18 CHWEFROR 2020** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2020 (copi'n amgaeedig).

**5 CAFFAEL GOFAL A CHEFNOGAETH MEWN CYNLLUN TAI GOFAL YCHWANEGOL I BOBL HŶN AC ANABLEDD CYMHLETH** (Tudalennau 17 - 30)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi ynghlwm) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynnal proses gaffael ar gyfer tendro gofal a chefnogaeth i'r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol, Awel y Dyffryn, Dinbych.

6 **CAFFAEL SYSTEM CYLLID** (Tudalennau 31 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn proses gaffael ar gyfer system cyllid craidd i'r Cyngor.

7 **ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL** (Tudalennau 45 - 52)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2020/21.

8 **ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 53 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Cyng.Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

9 **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 91 - 94)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

10 **CYMERADWYO CYTUNDEB BYW Â CHYMORTH GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 95 - 136)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi ynghlwm) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer derbyn a gwrthod tendrau mewn perthynas â'r ymarfer caffael ar gyfer Cytundeb Byw â Chymorth Gogledd Cymru (Fframwaith).

**11 CONTRACT IS-RANBARTHOL (CSDD/CBSC) – GWASANAETHAU CYSYLLTU BYWYDAU** (Tudalennau 137 - 166)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi ynghlwm) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract ar gyfer darparu Gwasanaethau Cysylltu Bywydau yn dilyn ymarfer tendro.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned